

CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod: 18fed o Orffennaf 2019

Teitl yr Eitem: Adolygiad o gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor

Swyddog Cyswllt: Geraint Owen
Pennaeth Gwasanaethau Democraataidd

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cyngor:

- fabwysiadu'r dyraniad seddau a nodir yn Atodiad A.
- ddirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaethau Democraataidd wneud penodiadau i'r pwyllgorau ar sail cydbwysedd gwleidyddol ac yn unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol

2. CEFNDIR A RHESYMEG

2.1 CYFLWYNIAD

2.1.1 Adroddwyd yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar 2il o Fai, 2019 fod cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:-

Plaid Cymru	40
Annibynnol	22
Llais Gwynedd	6
Grwp Annibynnol Unedig Gwynedd	3
Aelod Unigol	3

Cyfanswm 74

2.1.2 Ers hynny, mae un newid wedi bod fel a ganlyn:

- Cynghorydd Gareth Jones, Ward Morfa Nefyn, (Grŵp Plaid Cymru).

2.1.3 Bellach, felly, mae cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:-

Plaid Cymru	41
Annibynnol	22
Llais Gwynedd	6
Grwp Annibynnol Unedig Gwynedd	3

Aelod Unigol 3

Cyfanswm 75

2.2 DYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

2.2.1 I atgoffa'r aelodau, nodir yma'r pedair prif reol yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ynglŷn â dyrannu seddau:-

2.2.2 (a) Ni chaiff pob sedd ar bwyllgor ei dyrannu i'r un grŵp gwleidyddol;

(b) Rhaid dyrannu mwyafrif y seddau ar bwyllgor i grŵp gwleidyddol os yw nifer y personau sy'n perthyn i'r grŵp yn fwyafrif o aelodau'r Cyngor;

(c) Yn amodol ar baragraffau (a) a (b) uchod, bydd nifer y seddau ar y pwyllgorau cyffredin a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un fath â'r nifer o'r holl seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor;

(ch) Yn amodol ar (a),(b) ac (c) uchod, bydd nifer y seddau ar bwyllgor a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un gyfran o'r seddau ar y pwyllgor â'r nifer o seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor.

2.2.3 Er mwyn sicrhau y glynir wrth y rheolau hyn, mae'r Cyngor wedi bod yn ymdrin â phwyllgorau mewn blociau gwahanol yn y gorffennol. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i sicrhau y glynir wrth reol (c) ym mharagraff 2.2 uchod hefyd.

2.3 NEWIDIADAU I DDYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

2.3.1 Er y newid a nodir yn 1.2 uchod, mae'r cydbwysedd gwleidyddol yn parhau yn ddi newid.

2.3.2 Fodd bynnag, er mwyn ymateb i'r her o lenwi seddau, mae'r Grŵp Busnes yn argymhell un newid, sy'n cadw o fewn y balans gwleidyddol. Argymhellir fod Grŵp Annibynnol Unedig Gwynedd yn colli sedd ar y Pwyllgor Iaith, ond yn ennill sedd ar y Pwyllgor Trwyddedu Canolog. I gyd-fynd â hyn, fod yr Aelod Unigol (Cyngorydd Sion Jones) yn colli sedd ar Pwyllgor Trwyddedu Canolog, ond yn ennill sedd ar y Pwyllgor Iaith. Mae'r newid wedi ei liwio mewn melyn yn yr Atodiad.

2.3.3 Gofynnir i'r Cyngor fabwysiadu'r dyraniad seddau yn unol â'r cydbwysedd gwleidyddol fel a nodir yn **Atodiad A**.

3. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

3.1 SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL:

Swyddog Monitro:

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

Swyddog Cyllid Statudol:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

ATODIAD A – DYRANIAD SEDDI AR BWYLLGORAU

A	Plaid Cymru	Annibynnol	Llais Gwynedd	Annibynnol Unedig Gwynedd	Aelod Unigol	Cyfanswm
Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi	10	5	2	1		18
Pwyllgor Craffu Cymunedau	10	5	2	0	1	18
Pwyllgor Craffu Gofal	10	5	1	1	1	18
Archwilio a Llywodraethu	10	5	1	1	1	18

B	Plaid Cymru	Annibynnol	Llais Gwynedd	Annibynnol Unedig Gwynedd	Aelod Unigol	Cyfanswm
Gwasanaethau Democrataidd	8	5	1	1		15
Cynllunio	8	4	1	1	1	15
Trwyddedu Canolog	8	4	1	1	2-1	15
Iaith	8	5	1	1	1 (SJ)	15
Penodi Prif Swyddogion	8	5	2	0		15
Apelau Cyflogaeth	4	2	1	0		7
Nifer y seddau	84	45	13	6	6	154

C	Plaid Cymru	Annibynnol	Llais Gwynedd	Annibynnol Unedig Gwynedd	Aelod Unigol	Cyfanswm
Pensiynau	4	2	0	0	1	7
Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol	6	3	1	1		11
CYSAG	4	3	0	0		7
Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd	5	2	1	0		8

Cyfanswm y seddau	103	55	15	7	7	187
--------------------------	------------	-----------	-----------	----------	----------	------------